

Telerau ac Amodau



Telerau ac Amodau Cyffredinol
ar gyfer gweithredu

Cyfrifon Cynilo 1 Awst 2024

SWANSEA
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923



Protected

A. Telerau ac Amodau Cyffredinol

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Telerau ac Amodau Cyffredinol Hyn:

1.1.1 yn berthnasol i bob Cyfrif Cynilo sydd gennych gyda ni, a'r gwasanaethau a ddarperir gennym ni mewn cyswllt â'r cyfrifon hynny;

1.1.2 yn esbonio ein rhwymedigaeth ni i chi a'ch rhwymedigaeth chi i ni; ac

1.1.3 yn cynnwys y telerau y byddwn ni'n cynnal Gwasanaethau Talu (a ddiffinnir isod) o danynt i chi.

1.2 Mae eich cytundeb gyda ni ar gyfer gweithredu unrhyw Gyfrif Cynilo sydd gennych gyda ni wedi'i amlinellu yn Nogfennaeth y Cyfrif, sy'n cynnwys y Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn a'r fersiwn gyfredol o'r dogfennau canlynol:

1.2.1 Telerau ac Amodau Penodol i'r Cynnyrch;

1.2.2 Taflen Cyfraddau Llog;

1.2.3 Ffurflenni Cais; a'r

1.2.4 Mandad(au).

1.3 Gellir cael copïau o Ddogfennaeth y Cyfrif ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk, neu gellir eu cael oddi wrthym ni o wneud cais amdanynt.

1.4 Os oes unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn a'r Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch, y Ddogfennaeth

Benodol i'r Cynnyrch fydd drechaf.

1.5 Nid oes dim yn Nogfennaeth y Cyfrif a fwriedir nac a weithredir i ddiystyru unrhyw ddyletswyddau statudol neu reoleiddiol y gallem ni fod yn atebol iddynt.

2 Diffiniadau

2.1 Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Telerau ac Amodau hyn at:

"**Dogfennaeth y Cyfrif**" yn golygu'r ddogfennaeth a amlinellir yng nghymal 1.2

"**Ffurflenni Cais**" yn golygu'r ffurflen gais y bydd angen i chi ei chwblhau er mwyn agor Cyfrif Cynilo

"**Dydd Busnes**" yn golygu pob dydd Llun tan ddydd Gwener pan fyddwn ni ar agor i fasnachu

"**Siec**" yn golygu unrhyw siec rydym ni'n ei chyhoeddi yn ein henw ni ar eich cais chi

"**Taflen Cyfraddau Llog**" yn golygu'r fersiwn gyfredol o'r daflen a gyhoeddir gennym ar gyfer pob math o Gyfrif Cynilo, sy'n amlinellu gwybodaeth am y gyfradd (cyfraddau) llog sy'n daladwy

"**Mandad(au)**" yn golygu unrhyw ffurflenni mandad a lofnodir gennych chi o ran gweithredu Cyfrif Cynilo

"**Gwasanaeth Talu**" yn golygu unrhyw drosglwyddiad electronig o arian i'w wneud mewn punnoedd sterling o'ch Cyfrif Cynilo gyda ni i gyfrif banc yn y DU yn eich enw(au) chi

"Dogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch" yn golygu telerau ac amodau penodol, y Daflen Cyfraddau Llog a'r Mandad(au) sy'n berthnasol i bob math o Gyfrif Cynilo

"Telerau ac Amodau Penodol i'r Cynnyrch" yn golygu'r telerau ac amodau penodol i'r cynnyrch sy'n berthnasol i Gyfrif Cynilo penodol

"Cyfrif Cynilo" yn golygu pob cyfrif cynilo rydych chi'n eu dal gyda ni

"Chi" ac **"eich"** yn golygu unrhyw gwsmer sy'n meddu ar Gyfrif Cynilo gyda ni ac sy'n cynnwys (ble bo'n berthnasol) unrhyw berson a awdurdodir gennych i roi cyfarwyddiadau ynglŷn â'ch cyfrif

"ni", ac **"ein"** yn golygu Swansea Building Society, 11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW ffôn 01792 739110 e-bost: info@swansea-bs.co.uk,

"Codi arian" yn golygu unrhyw daliad a wneir allan o Gyfrif Cynilo, boed hynny ar ffurf arian parod, siec neu wasanaeth talu.

- 2.2 Mae unrhyw gyfeiriad a wneir i'r Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn neu at unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati ynddynt yn gyfeiriad at y dogfennau hynny fel yr amnewidir hwy o bryd i'w gilydd.

3 Cyfathrebiadau

- 3.1 Gallwn gysylltu â chi ar faterion sy'n ymwneud â Chyfrif Cynilo drwy'r post, ffôn, ffacs neu e-bost, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt diweddaraf rydych chi wedi'u rhoi i ni drwy ein gwefan. Dylech roi gwybod i ni ar fyrder am unrhyw newid o ran eich cyfeiriad, rhif ffôn neu unrhyw fanylion personol pwysig eraill er mwyn i ni allu diweddarau ein cofnodion. Dylech ar yr un pryd ddarparu unrhyw lyfr cyfrif sydd

gennych ar gyfer eich cyfrif er mwyn i ni allu cofnodi newidiadau o'r fath yn y llyfr cyfrif.

- 3.2 Dylech gysylltu â ni ynghylch unrhyw faterion sy'n codi o'r Telerau ac Amodau hyn drwy'r post, ffôn, ffacs neu e-bost at ein cyfeiriad a nodir yng nghymal 2.

4 Adneuron

- 4.1 Cyfyngir adneuron arian parod i gyfanswm o £3000.00 fesul cwsmer fesul diwrnod, boed hwnnw'n cael ei dalu i un neu ragor o Gyfrifon Cynilo.
- 4.2 Bydd adneuron arian parod neu drosglwyddiad electronig yn ennill llog o hanner nos ar y diwrnod y'u derbyn timer gennym ni. Bydd adneuron siec yn ennill llog (yn ddiabynnol ar glirio) o'r trydydd Dydd Busnes ar ôl i ni dderbyn y siec. Er enghraifft, bydd siec a dalwyd i mewn ar ddydd Mawrth yn ennill llog o hanner nos ar ddydd lau. Os derbyn timer siec ar ddiwrnod nad yw'n Ddydd Busnes caiff ei thrin fel pe'i derbyniwyd ar y Dydd Busnes olynol. Telir llog ar symiau a godir tan hanner nos ar ddiwrnod y codi. Os dychwelir unrhyw siec rydych chi wedi'i thalu i'ch cyfrif atom ni heb ei thalu neu os adelwir unrhyw daliad electronig neu daliad arall, byddwn ni'n debydu eich cyfrif â swm y taliad hwnnw fel pe ar ddyddiad yr adnau, ac ni fydd yr adnau hwnnw'n ennill llog. Byddwn ond yn derbyn sieciau ar gyfer eich cyfrif sy'n llai na 6 mis oed.
- 4.3 Rydym ni'n cadw'r hawl i gyfyngu ar uchafswm y buddsoddiad mewn unrhyw gyfrif o bryd i'w gilydd.

5 Codi arian

- 5.1 Cyfyngir faint o arian parod y gellir ei godi i gyfanswm o £1,000 fesul

cwsmer fesul diwrnod, boed hynny'n dod o un neu ragor o Gyfrifon Cynilo. Ni all trydydd parti godi arian parod ar ran deiliad y Cyfrif oni bai fod gan y person hwnnw bŵer atwrnai wedi'i sefydlu.

5.2 Gellir codi arian drwy gyfrwng Siec neu Wasanaeth Talu ar unrhyw adeg, heb gyfyngiad, yn unol â Dogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch ar gyfer y Cyfrif Cynilo perthnasol.

5.3 Gellir ond codi arian drwy gyfrwng Siec neu Wasanaeth Talu er budd cyfrif banc yn enw deiliaid y Cyfrif Cynilo y daw'r taliad ohono. Os yw'r mandad ar gyfer cyfrif ar y cyd yn awdurdodi deiliad unigol i godi arian, yna gall y cyfrif banc fod yn enw'r deiliad hwnnw'n unig; fel arall, rhaid iddo fod yn enw pob deiliad ar y cyd.

5.4 Ni fydd taliadau i mewn i'ch Cyfrif Cynilo ar ffurf siec ar gael i'w codi tan ddiwedd 4 Dydd Busnes ar ôl dyddiad y buddsoddiad. Y rheswm am hyn yw nad ydym ni'n fanc, a rhaid i ni dalu'r siec i'n cyfrif banc ni ein hunain i bwrpasau clirio.

5.5 Bydd taliadau i mewn i'ch cyfrif ar ffurf arian parod neu drosglwyddiad electronig ar gael i'w codi ar unwaith ar ôl i ni eu derbyn, yn unol â Thelerau ac Amodau Penodol i'r Cynnyrch y cyfrif hwnnw.

5.6 Yn nhrefn arferol busnes, ni allwn dderbyn cyfarwyddiadau i atal talu Siec. Os yw siec a gyhoeddwyd i chi yn cael ei cholli neu ddwyn, ffoniwch **01792 739110** fel mater o frys os gwelwch yn dda, ac fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

5.7 Mae sieciau'n ddilys am gyfnod o chwe mis ar ôl dyddiad eu cyhoeddi. Dylid dychwelyd sieciau diangen neu allan o ddyddiad atom ni er mwyn eu hailffuddsoddi.

5.8 Ar gyfer y lleiafswm balans sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw Gyfrif Cynilo, gweler y Telerau ac Amodau Penodol i'r Cynnyrch os gwelwch yn dda. Pe bai'r balans ar unrhyw Gyfrif Cynilo'n disgyn islaw'r lleiafswm gofynnol, rydym ni'n cadw'r hawl i gau'r cyfrif hwnnw a thalu'r balans sy'n weddill, ynghyd ag unrhyw log a grynhowyd, ar ffurf Siec, i chi.

6 Llog

6.1 Cyfrifir llog yn ddyddiol ar falans eich cyfrif, yn unol â'r Daflen Cyfraddau Llog. I wybod y dyddiadau talu llog perthnasol i Gyfrif Cynilo, edrychwch os gwelwch yn dda ar y Ddogfennaeth Berthnasol i'r Cynnyrch.

6.2 Mae cyfraddau llog yn amrywio (oni nodir fel arall yn y Ddogfennaeth Berthnasol i'r Cynnyrch) a gellir eu newid ar unrhyw adeg mewn ymateb i newidiadau mewn amodau economaidd, gofynion rheoleiddiol, neu yn ôl yr hyn y barnwn ni'n rhesymol sy'n angenrheidiol er budd gofal ariannol a / neu reolaeth ddoeth o'n materion, a / neu er eich budd chi a buddiannau ein haelodau i gyd.

6.3 Byddwn ni'n rhoi rhybudd ysgrifenedig 14 niwrnod ymlaen llaw drwy'r post o unrhyw newid yn ein cyfraddau llog. Cânt eu nodi hefyd ar ein gwefan ar **www.swansea-bs.co.uk** neu gallwch ffonio neu alw yn un o'n swyddfeydd cangen.

7 Gwasanaethau Talu

7.1 **Sut y gallwch chi ein cyfarwyddo i ymgymryd â Gwasanaeth Talu**

7.1.1 Gallwch ein cyfarwyddo i ymgymryd â Gwasanaeth Talu yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi'n unol â'r Mandad(au), naill ai drwy lythyr neu drwy alw yn un

o'n swyddfeydd cangen. Bydd angen i'ch cyfarwyddyd roi manylion cod sortio'r banc, rhif y cyfrif, ac enw(au) deiliaid y cyfrif banc.

- 7.1.2** Unwaith y byddwn ni wedi derbyn eich cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu, ni allwch fel arfer ei adalw oni bai eich bod wedi gofyn i ni wneud y taliad ar ddyddiad yn y dyfodol; mewn achos o'r fath gallwch ei ganslo cyn diwedd y Dydd Busnes cyn y diwrnod hwnnw.
- 7.1.3** Yn ddibynnol ar bwyntiau 7.1.4 i 7.1.6, amser derbyn Gwasanaeth Talu fydd pryd rydym ni'n ei dderbyn.
- 7.1.4** Os derbynnir cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu gennym ar ddiwrnod nad yw'n Ddydd Busnes, bydd yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dderbyn ar y Dydd Busnes canlynol.
- 7.1.5** I'n galluogi ni i brosesu pob cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu a dderbyniwn mewn diwrnod, rhaid i ni osod terfyn amser o 3pm. Yn ddibynnol ar bwynt 7.1.6, bydd unrhyw gyfarwyddyd Gwasanaeth Talu a dderbyniwyd ar ôl 3pm ar Ddydd Busnes yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dderbyn ar y Dydd Busnes canlynol.
- 7.1.6** Ble bo'r cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu yn gofyn i ni brosesu'r Gwasanaeth Talu ar ddiwrnod diweddarach nag y derbyniwn y cyfarwyddyd, trinnir y diwrnod hwyrach fel dyddiad derbyn y cyfarwyddyd, oni bai fod y dyddiad diweddarach hwnnw'n ddiwrnod nad yw'n Ddydd Busnes, ac mewn achos felly, trinnir y cyfarwyddyd fel pe'i derbyniwyd ar y Dydd Busnes nesaf wedi hynny.

7.1.7 Fe all telerau Cyfrif Cynilo penodol gyfyngu ar ein gallu i gynnal Gwasanaeth Talu i chi; gweler y Telerau ac Amodau Perthnasol i'r Cynnyrch os gwelwch yn dda

7.2 Uchafswm amser ar gyfer Gwasanaethau Talu

7.2.1 Uchafswm yr amser ar ôl derbyn cyfarwyddyd am eich Gwasanaeth Talu erbyn y bydd yr arian wedi cael ei dderbyn gan y banc sy'n ei dderbyn yw 1 Dydd Busnes.

7.2.2 Mae gofyn i'r banc sy'n derbyn dalu'r arian i mewn i'ch cyfrif banc chi ar yr un dydd ag y bydd yn derbyn y taliad.

7.3 Hawl i wrthod cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu

7.3.1 Byddwn ni'n prosesu eich cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu ar yr amod bod yr amodau hyn yn cael eu cyflawni:

- (a)** rydym ni'n credu fod y cyfarwyddyd yn ddilys;
- (b)** mae'r cyfarwyddyd yn glir; a
- (c)** mae gennych ddigon o arian yn eich cyfrif i wneud y taliad.

7.3.2 Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am unrhyw achos ar ein rhan ni o wrthod prosesu cyfarwyddyd Gwasanaeth Talu, a sut y gallwch gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol a arweiniodd at y gwrthod hwnnw.

7.4 Gwybodaeth am Wasanaethau Talu

Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi drwy gyfrwng ein swyddfeydd cangen, neu drwy'r post neu dros y ffôn, am unrhyw Wasanaeth Talu a wnaed ar eich rhan, pryd bynnag y bydd taliadau o'r fath yn cael eu gwneud. Yn ogystal, rhoddir gwybod i chi am unrhyw Wasanaeth

Talu a wnaed gennych chi pan fyddwch chi'n cyflwyno eich llyfr cyfrif i ni er mwyn ei ddiweddarau.

8 Codi arian heb ganiatâd

- 8.1** Rhaid i chi roi gwybod i ni ar y cyfle cyntaf ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw arian a godwyd heb ganiatâd o'ch cyfrif.
- 8.2** Byddwn ni'n archwilio'r achos o godi arian a byddwn, yn yr amgylchiadau a amlinellir yng nghymal 8.4, yn:
- 8.2.1** ad-dalu swm yr arian a godwyd i chi; a
- 8.2.2** dychwelyd eich cyfrif i'r safle y byddai wedi bod ynddo pe na bai'r arian wedi cael ei godi (gan gynnwys talu unrhyw log y byddech wedi ei ennill pe na bai'r arian wedi cael ei godi).
- 8.3** Chi fydd yn atebol am unrhyw arian a godir o'ch cyfrif pan fyddwn ni'n ystyried yn rhesymol eich bod chi (neu unrhyw un a fandadwyd gennych chi) wedi gweithredu'n dwyllodrus, neu os byddwch chi'n gwrthod cymryd camau yr ydym ni'n gofyn yn rhesymol i chi eu cymryd i gynorthwyo â'n hymchwiliad i'r achos o godi arian, gan gynnwys dweud wrth yr heddlu am yr arian a godwyd heb ganiatâd.
- 8.4** Byddwn ni'n eich ad-dalu chi am arian a godwyd heb ganiatâd yn unol â chymal 8.2 os credwn yn rhesymol ein bod ni ar fai drwy adael i'r arian gael ei godi heb awdurdod digonol gennych chi.
- 8.5** Bydd y cymal 8 hwn ond yn berthnasol yn achos Gwasanaeth Talu pan fyddwch chi wedi rhoi gwybod i ni am yr arian a godwyd heb ganiatâd o fewn 13 mis ar ôl iddo ddigwydd.

9 Methu â Gwireddu Codi Arian neu Wireddu Diffygiol

- 9.1** Os byddwch chi'n ein cyfarwyddo i godi arian o'ch cyfrif drwy gyfrwng Siec neu Wasanaeth Talu, ac ni dderbynnir y taliad neu fe'i gweithredir yn anghywir gennym ni, rhaid i chi roi gwybod i ni ar y cyfle cyntaf ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o hyn.
- 9.2** Byddwn ni'n archwilio sut aethpwyd ati i godi'r arian, ac os canfyddwn nad oedd y taliad wedi cyrraedd banc yr un y'i bwriadwyd ar ei gyfer, ac ar yr amod bob amser eich bod chi wedi rhoi'r manylion banc cywir i ni, byddwn ni'n:
- 9.2.1** ad-dalu swm yr arian nas gweithredwyd neu a godwyd yn wallus i chi;
- 9.2.2** ble bo hynny'n berthnasol, dychwelir eich cyfrif i'r safle y byddai wedi bod ynddo pe na byddai'r arian wedi cael ei godi (gan gynnwys talu unrhyw log y byddech wedi ei ennill pe na bai'r arian wedi cael ei godi); a
- 9.2.3** rhoi ad-daliad i chi am unrhyw log neu gostau trydydd parti y gallech chi fod wedi mynd yn ddyledus amdanynt o ganlyniad i fethiant wrth godi'r arian neu weithredu codi'r arian yn wallus.
- 9.3** Os canfyddwn fod y banc oedd i fod i dderbyn yr arian wedi derbyn y taliad, bydd yn rhaid i'r banc hwnnw dalu'r arian yn ôl i chi.
- 9.4** Pan fydd y methiant i weithredu taliad neu'r taliad gwallus ar ein rhan ni o ganlyniad i amgylchiadau anarferol ac na ellir mo'u rhagweld sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni, ac na fyddai wedi bod yn bosib osgoi'u canlyniadau er gwaethaf pob ymdrech i'r perwyl hwnnw gennym ni, ni fydd pwynt 9.2

yn weithredol i'r taliad hwnnw a weithredwyd yn wallus.

- 9.5** Bydd y cymal 9 hwn ond yn berthnasol yn achos Gwasanaeth Talu pan fyddwch chi wedi rhoi gwybod i ni am y methiant i dderbyn yr arian o fewn 13 mis ar ôl gwneud y cyfarwyddyd talu.

10 Manylion Talu Anghywir

Os byddwch chi'n rhoi manylion cyfrif anghywir i ni ar gyfer codi arian o gyfrif, byddwn ni'n cymryd camau rhesymol i geisio adfer yr arian i chi os gofynnwch i ni wneud hyn, a chytuno i dalu ein costau rhesymol. Bydd y costau hynny'n amrywio yn ôl yr union amgylchiadau, ond byddwn ni'n rhoi amcangyfrif i chi ei gymeradwyo cyn i ni gymryd unrhyw gamau a allai arwain at godi ffi.

11 Colli neu Ddwyn eich Llyfr Cyfrif

- 11.1** Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod eich llyfr Cyfrif Cynilo'n cael ei gadw'n ddiogel bob amser.
- 11.2** Rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted ag y dewch yn ymwybodol o unrhyw golled, lladrad neu ddefnydd heb ei awdurdodi o'ch llyfr cyfrif, drwy ffonio neu alw yn un o'n swyddfeydd cangen. Ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir o llyfr cyfrif a gollwyd neu a ddygwyd ar ôl i chi ddweud wrthym ei fod ar goll neu wedi'u ddwyn, oni bai ein bod ni'n credu'n rhesymol eich bod chi'n gweithredu'n dwyllodrus. Wedi i ni gael hysbysiad o'r fath, byddwn ni'n trosglwyddo'r swm yn eich Cyfrif Cynilo i gyfrif newydd, ac yna byddwn yn cyhoeddi llyfr cyfrif newydd ar eich cyfer.
- 11.3** Yn ddibynnol ar bwynt 11.4, dim ond ar gyfer swm hyd at uchafswm o £50 y byddwch chi'n atebol amdano yn

achos unrhyw arian a godir o'ch cyfrif o ganlyniad i ddefnyddio llyfr cyfrif a gollwyd neu a ladratwyd cyn i chi ein hysbysu yn unol â chymal 11.2.

- 11.4** Chi fydd yn gyfrifol am bob arian a godir o'ch cyfrif pan fyddwn ni'n credu'n rhesymol eich bod chi:

11.4.1 wedi gweithredu'n dwyllodrus;

11.4.2 i chi fethu'n fwriadol neu'n afresymol â chydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan y Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn neu Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch yn achos defnyddio'r llyfr cyfrif, gan gynnwys unrhyw fethiant i gadw eich llyfr cyfrif yn ddiogel.

- 11.5** Os gofynnir i chi gennym ni, rhaid i chi wneud popeth rydym ni'n ei geisio'n rhesymol i'n helpu i adfer llyfr cyfrif sydd ar goll neu sydd wedi'i ddwyn.

- 11.6** Ein heiddo ni yw pob llyfr cyfrif bob amser a gellir codi ffi weinyddol ar gyfer rhoi un arall i chi. Gweler ein taflen wybodaeth Ffioedd a Chostau Safonol i wybod faint yw'r costau hyn.

12 Ffioedd

- 12.1** Fe allwn ni godi ffioedd arnoch chi ar gyfer rhai gwasanaethau y byddwn ni'n eu gwneud ar eich rhan i'ch cyfrif gan gynnwys Gwasanaethau Talu. I gael manylion am y costau hyn, gweler ein taflen wybodaeth Ffioedd a Chostau Safonol. Pan fydd ffioedd o'r fath yn cael eu codi am Wasanaethau Talu, ni allwn eu tynnu allan o'r taliadau rydym ni'n eu hanfon atoch chi.

- 12.2** Os byddwn ni'n darparu gwasanaeth newydd mewn cyswllt â'ch cyfrif, gallwn gyflwyno cost newydd am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Gallwn newid ein Ffioedd a Chostau Safonol o bryd i'w gilydd os oes newid

yn y costau a godir arnom ni wrth i ni ddarparu'r gwasanaethau neu os credwn yn rhesymol fod newid o'r fath yn bosib i'r ffioedd.

- 12.3** Fe all fod trethi neu gostau eraill nad ydyn nhw'n cael eu talu drwm ni neu a osodir arnom ni y bydd yn rhaid i chi eu talu mewn cyswllt â'ch cyfrif.

13 Datganiadau

- 13.1** Byddwn ni'n rhoi datganiad i chi o leiaf bob blwyddyn yn rhoi manylion am eich Cyfrif Cynilo.
- 13.2** Rhaid i chi wirio eich datganiadau'n ofalus ar ôl eu derbyn a rhoi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw drafodion nad ydych chi'n eu hadnabod.

14 Amrywio'r Telerau sy'n Berthnasol i'ch Cyfrif Cynilo

- 14.1** Gellir amrywio cyfraddau llog gennym ni ar unrhyw adeg am y rhesymau ac yn y dull a amlinellir yng nghymalau 6.2 a 6.3.
- 14.2** Gellir gwneud newidiadau i Ffioedd a Chostau Safonol am y rhesymau a amlinellir yng nghymal 12.2.
- 14.3** Gellir gwneud newidiadau eraill i'r Telerau ac Amodau cyffredinol yn ac i'r Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch gennym ni o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i newidiadau mewn amodau economaidd, gofynion rheoleiddio, neu os credwn ni'n rhesymol ei bod yn ofynnol gwneud yn enw gofal ariannol a / neu reolaeth ddoeth o'n busnes, a / neu er budd i chi a buddiannau ein haelodau cyfan.
- 14.4** Pan fyddwn ni'n dymuno gwneud newid yn unol â chymal 14.2 neu 14.3, byddwn ni'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi 2 fis ymlaen llaw

drwy'r post neu (ble rydych chi wedi ein hawdurdodi i wneud hynny) drwy e-bost, am y newid arfaethedig. Cewch eich trin wedyn fel pe baech chi'n derbyn y newid hwnnw oni bai eich bod chi'n dweud wrthym cyn dyddiad y newid arfaethedig fod y newid hwnnw'n annerbyniol i chi.

- 14.5** Os byddwn ni'n gwneud newid yn unol â naill ai cymal 6 (Cyfraddau Llog) neu'r cymal 14 hwn, a byddwch chi'n ein hysbysu cyn i'r newid ddigwydd ei fod yn annerbyniol, bydd gennych hawl i gau eich Cyfrif Cynilo ar unwaith a gyda budd yr holl log a gasglwyd ond nad yw eto wedi'i gredydu i'r cyfrif, ar yr amod: (a) eich bod chi'n gwneud hynny ar yr un pryd ag y dywedwch wrthym fod y newid yn annerbyniol; a (b) rydym ni'n credu'n rhesymol y byddai'r newid yn cael effaith andwyol materol ar eich buddiannau fel cwsmer.

15 Cau eich Cyfrif

- 15.1** Gallwch gau eich cyfrif ar unrhyw adeg drwy ddweud wrthym eich bod yn dymuno gwneud hynny.
- 15.2** Gallwn ni ddod â'n perthynas â chi i ben ar unwaith os bydd unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol yn digwydd:
- 15.2.1** os ydych chi wedi torri unrhyw rai o'r Telerau ac Amodau Hyn neu Delerau ac Amodau Penodol i'r cynnyrch mewn ffordd ddifrifol neu barhaus;
- 15.2.2** rydych chi wedi rhoi unrhyw wybodaeth ffug i ni ar unrhyw adeg;
- 15.2.3** rydych chi neu rywun arall yn defnyddio eich cyfrif yn anghyfreithlon neu er mwyn gweithredu mewn dull troseddol; neu

15.2.4 drwy gynnal eich cyfrif, fe allem ni dorri cyfraith, rheoliad, cod neu ddyletswydd arall sy'n berthnasol i ni.

15.2.5 rydych chi'n ymddwyn mewn dull a fernir yn annerbyniol gerbron aelod o staff SBS.

15.2.6 os defnyddiwch eich cyfrif fel cyfrif trafodion / cyfredol, er enghraifft drwy wneud nifer fawr o daliadau i mewn ac allan ohono (gan gynnwys adneuo / codi symiau mawr o arian parod).

Fel arall, rhaid i ni roi dau fis o rybudd i chi os dymunwn ddod â'n perthynas fancio i ben gyda chi.

15.3 Cau Cyfrif

Cyn y gellir cau cyfrif:

15.3.1 derbyn timer hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad i gau gennym ni wedi'i lofnodi gennych chi (yn achos cyfrifon ar y cyd, wedi'u lofnodi gan un neu'r cyfan fel y manylir ar Fandad y cyfrif);

15.3.2 dychwelir atom bob llyfr cyfrif a gyhoeddwyd gennym; a

15.3.3 bydd pob arian a godwyd ar y cyfrif wedi'u clirio a'u prosesu.

16 Ad-dalu

Byddwch chi'n rhoi iawndal i ni am unrhyw golled neu ddyled a ddioddefir gennym o ganlyniad i fethiant ar eich rhan chi i gydymffurfio â Dogfennaeth y Cyfrif.

17 Cyfrifon ar y Cyd

17.1 Yn achos cyfrifon a ddelir mewn enwau ar y cyd, bydd y Telerau ac

Amodau Cyffredinol hyn a'r Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch yn berthnasol i bob parti ar y cyd ac i bob parti fel unigolyn ar wahân.

17.2 Gosodir awdurdod ar gyfer gweithredu, neu godi arian o, gyfrifon ar y cyd gan ddeiliaid y cyfrifon pan fyddant yn agor y cyfrif ac fe'u dilynir gennym ni hyd nes y derbyn timer awdurdod cywir i newid cyfarwyddyd o'r fath. Os cawn ein cyngori o anghydfod rhwng partion cyfrif ar y cyd, byddwn ni'n rhewi'r cyfrif nes i ni dderbyn cyfarwyddiadau clir, wedi'u lofnodi gan bob parti ar y cyfrif, ynghylch sut y dymunant i ni barhau. Os gofynnir amdanynt, fe fyddwn ni'n anfon datganiadau i bob parti i gyfrif ar y cyd mewn cyfeiriadau gwahanol, heb godi tâl.

17.3 Bernir fod deiliaid cyfrifon ar y cyd yn gyd-aelodau ohonom ni, ond dim ond y cyntaf i'w enwi fel deiliad y cyfrif yn ein cofnodion (a elwir yn gyd-gyfrandaliwr cynrychioliadol) fydd â'r hawl i dderbyn hysbysiadau a chyfathrebiadau oddi wrthym, ac i bleidleisio yn ein cyfarfodydd. Mae hi'n arbennig o bwysig fod pob parti mewn cyfrif ar y cyd yn rhoi ystyriaeth lawn i ddewis y drefn y rhoddir yr enwau ar y cyfrif.

17.4 Os byddwch chi'n agor cyfrif ar y cyd, a byddwch yn ein cyfarwyddo i dderbyn cyfarwyddyd codi arian ar sail un lofnod yn unig, yna bydd awdurdod gan unrhyw un parti i godi unrhyw arian neu'r holl falans sydd ar gael i'w godi.

17.5 Os dymunwch ddod â'r berthynas cyfrif ar y cyd i ben, byddwn ni'n cau'r cyfrif ar y cyd ac, os gofynnir i ni wneud hynny, yn agor cyfrif newydd yn enw(au)'r unigolyn(-ion). Os bydd un o ddeiliaid y cyfrif yn marw, fyddwn ni ond yn derbyn cyfarwyddyd oddi wrth ddeilia(i)d arall y cyfrif.

18 Deunydd Marchnata

Er budd i chi fe allwn o bryd i'w gilydd geisio cynnyrch neu wasanaethau ariannol sydd, yn ein barn ni, yn cynnig gwerth da a hoffem dynnu'r rhain i'ch sylw. Mae gennych hawl i ddweud nad ydych eisiau derbyn deunydd marchnata oddi wrthym ni, a gallwch wneud hynny drwy lenwi'r adran berthnasol o'r ffurflen gais i agor cyfrif, ein ffonio ar **01792 739110**, rhoi gwybod i aelod o staff mewn swyddfa gangen, neu drwy ysgrifennu atom.

19 Datgelu Gwybodaeth

Bydd pob gwybodaeth a ddarparwch chi i ni yn cael ei drin fel pe'n breifat a chyfrinachol. Ni ddatgelir dim i drydydd parti heblaw:

- 19.1 pan wneir datgeliad ar eich cais neu gyda'ch cydsyniad;
- 19.2 pan fo gorfodaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny;
- 19.3 pan fo dyletswydd i'r cyhoedd i ddatgelu; neu
- 19.4 pan ystyriwn ni'n rhesymol fod ein buddiannau'n cyfiawnhau datgelu.

20 Diogelu Data

Rydym wedi ymrwymo i warchod eich gwybodaeth bersonol. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein hysbysiad preifatrwydd sy'n esbonio sut rydym ni'n casglu, storio a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Os oes gennych unrhyw gwestiwn yn ymwneud â sut y prosesir eich data personol neu os dymunwch arfer unrhyw rai o'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, cysylltwch â'n swyddog diogelu data os gwelwch yn dda ar **dpo@swansea-bs.co.uk**.

21 Y Gyfraith ac Anghydfodau

- 21.1 Llywodraethir y Telerau ac Amodau hyn a'r Telerau ac Amodau Penodol i'r Cynnyrch gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd y cyfreithiau hyn hefyd yn berthnasol i sefydlu ein perthynas â chi cyn i chi agor eich cyfrif.
- 21.2 Bydd gan lysoedd barn Cymru a Lloegr yr unig hawl i wrando pob mater sy'n codi o'r Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn a'r Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch.
- 21.3 Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf wrth ymdrin â chi. Serch hynny, pe teimlech fod gennych gŵyn sy'n codi o weithredu'r Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn neu o'r Ddogfennaeth Benodol i'r Cynnyrch, mae gennym weithdrefnau ar gyfer trin cwynion yn deg ac yn gyflym. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch os gwelwch yn dda ar ein taflen wybodaeth Gweithdrefnau Cwyno.
- 21.4 Os nad ydych yn fodlon o hyd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'ch cwyn ar ôl dilyn ein gweithdrefnau cwyno, efallai y dymunwch gyfeirio'r mater at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, am ein bod ni'n perthyn i Gynllun Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Gellir cael gwybodaeth am y Cynllun hwn, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr Ombwdsmon oddi wrthym ni o ofyn amdanynt, a chânt eu darparu'n ddiofyn fel rhan o'n gweithdrefnau cwyno.
- 21.5 Os dewiswn i beidio â gweithredu unrhyw hawl yn eich erbyn ar unwaith, gallwn ddal i wneud hynny'n ddiweddarach.

22 Eich Hawliau i Ganslo

- 22.1 Mae gennych hawl i ganslo eich cytundeb gyda ni ar gyfer gweithredu eich cyfrif. Mae'r cyfnod canslo'n dod i ben 14 niwrnod ar ôl i chi agor cyfrif gyda ni.

- 22.2 Gallwch ganslo'r cytundeb drwy gysylltu â ni fel yr amlinellir yng nghymal 3 yn ystod y cyfnod canslo 14 niwrnod.

- 22.3 Os nad ydych chi'n canslo'r cytundeb, byddwch yn cael eich ymrwymo gan Ddogfennaeth y Cyfrif.

B. Gwybodaeth bellach (Nad yw'n Rhan o'r Telerau ac Amodau hyn)

1. Prif fusnes

Ein prif fusnes yw benthycu arian a derbyn adneuo.

Cyfrifon Cynilo gyda ni wedi agor cyfrifon adneuo, ac nid ydynt yn dod yn aelodau o Swansea Building Society.

2 Cyfrifon Cyfranddaliad ac Adneuo

- 2.1 Bernir bod unigolion sy'n agor Cyfrifon Cynilo gyda ni wedi agor cyfrifon cyfranddaliad ac o ganlyniad, dânt yn aelodau o Swansea Building Society. Mae ein Rheolau'n cynnwys y telerau sy'n llywodraethu'r berthynas rhyngom ni a'n haelodau, gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau ein haelodau. Gellir cael copi o'r Rheolau o ofyn amdano.

- 2.2 Bernir fod cyrff corfforaethol a buddsoddwyr anunigol eraill, fel clybiau a chymdeithasau, sy'n agor

- 2.3 Os cawn ein dwyn i ben neu ein diddymu, byddai cyfrifon adneuo'n cael eu graddio o flaen cyfrifon cyfranddaliad o ran ad-dalu arian a fuddsoddwyd i ddeiliaid cyfrifon.

3 Iawndal

Rydym ni'n aelod o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol y gellir talu iawndal drwyddo os na allwn ni gwrdd â'n dyledion. Cyfyngir taliadau o dan y Cynllun hwn i 100% o'r £85,000 cyntaf o gyfanswm cyfranddaliadau / adneuo buddsoddwr. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun oddi wrthym o ofyn amdano.

SWANSEA

BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

Prif Swyddfa

11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW
01792 739100

Caerfyrddin

13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

Y Bont-faen

75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

Y Mwmbwls

496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

Abertawe

1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk